



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD POLISI

Perchnogaeth leol ar gynhyrchu
ynni yng Nghymru – er budd Cymru
heddiw a chenedlaethau'r dyfodol

Rhagair y Gweinidog



Mae hwn yn gyfnod o gyfle anferth a newid heb ei debyg ar gyfer y system ynni. Mae ein heconomi'n cael ei gweddnewid gan angen cyfunol i ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

Mae gan Gymru etifeddiaeth hir fel pwerdy yn y DU ac rydym yn uchelgeisiol iawn ynghylch dyfodol carbon isel ffyniannus. Er mwyn manteisio ar y cyfnod hwn o newid, mae'n rhaid i Gymru arwain mewn ffordd uchelgeisiol, gan nodi a sicrhau'r manteision i Gymru.

Mae'n rhaid i ni ddefnyddio ynni adnewyddadwy yn lle tanwydd ffosil i gynhyrchu ynni'n barhaus a chynaliadwy. Fodd bynnag, dim ond os ydym yn cadw budd hynny y bydd yn dod â ffyniant i Gymru. Dyma pam y gosodais dargedau ym mis Medi 2017 sy'n canolbwyntio nid yn unig ar gapasiti newydd ond ar sut mae'r newid o fudd i Gymru:

- Cymru i gynhyrchu trydan sy'n gyfwerth â 70 y cant o'i defnydd o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030
- 1 gigawat (GW) o gapasiti ynni adnewyddadwy yng Nghymru i fod dan berchnogaeth leol erbyn 2030
- Prosiectau ynni adnewyddadwy newydd i gael elfen o berchnogaeth leol o leiaf o 2020 ymlaen

Ers 2010, mae cynhyrchu trydan adnewyddadwy yng Nghymru wedi treblu. Yn 2018, cynhyrchodd generaduron adnewyddadwy yng Nghymru drydan a oedd yn gyfwerth â 50% o ddefnydd Cymru. Ar ddiwedd 2018 roedd 778MW o gapasiti ynni adnewyddadwy Cymru dan berchnogaeth leol, yn erbyn ein targed o 1 GW. Mae'r hinsawdd polisi, sydd wedi'i bennu gan Lywodraeth y DU, yn cyflwyno heriau ar gyfer buddsoddi pellach mewn ynni adnewyddadwy. Fy nod, fodd bynnag, yw i Lywodraeth Cymru, datblygwyr ynni a phobl Cymru gydweithio i ddarparu ynni adnewyddadwy a chrosawu'r cyfleoedd a'r manteision sydd i'w cael o newid i economi carbon isel.

Yn Rhagfyr 2018, cyhoeddais ein hymateb i Gais Llywodraeth Cymru am Dystiolaeth ar Ynni Adnewyddadwy dan Berchnogaeth Leol, a oedd yn ymrwymo i gyhoeddi datganiad sefyllfa ar y mater. Rwy'n falch o gyhoeddi'r datganiad hwn yn egluro'n safbwynt.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chymunedau, busnesau, unigolion, y sector cyhoeddus a datblygwyr i gynyddu ffyniant drwy annog mwy o gynhyrchu ynni dan berchnogaeth leol yng Nghymru.

1. Trosolwg

Mae datgarboneiddio'n cynnig cyfleoedd sylweddol i greu economi fywiog sy'n gyfiawn yn gymdeithasol. Mae'n rhaid i ni wneud gwahaniaeth a helpu i greu cymdeithas yma yng Nghymru sy'n sicrhau llesiant ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth i ni ddatgarboneiddio.

Tanwydd ffosil sydd wedi bod yn sail i lawer iawn o'n heconomi yn y gorffennol. Mae tanwydd ffosil wedi pweru ein cartrefi a'n busnesau, cludo nwyddau a gwresogi ein hadeiladau ers amser maith. Ond mae yna bris mawr i'w dalu. Yn ogystal â'r allyriadau nwyon tŷ gwydr y mae llosgi tanwydd ffosil yn eu hachosi, ychydig o'r tanwyddau ffosil sy'n deillio o Gymru ac felly mae'r system ynni gyfredol yn arwain at golledion economaidd sylweddol o Gymru. Gyda datblygiadau technolegol a mwy o arweinyddiaeth gallwn greu system ynni i gadw llawer mwy o'r gwerth economaidd yng Nghymru.

Fel yr eglurir yn *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel*, mae'n rhaid i Gymru ddiwallu mwy o'i hanghenion ynni o ffynonellau adnewyddadwy. Ym mis Mai 2019, llwyddodd Prydain i bara am bythefnos heb ddefnyddio pŵer glo i gynhyrchu trydan am y tro cyntaf ers 1882. Ein dull yw annog sefydliadau yng Nghymru i ddatblygu mwy o'r asedau ynni adnewyddadwy newydd hyn, gan ddefnyddio'n hadnoddau naturiol toreithiog i ddiwallu anghenion lleol.

Yn 2018, cynhaliodd Llywodraeth Cymru gais am dystiolaeth ar gynhyrchu adnewyddadwy dan berchnogaeth leol. Roedd am gael tystiolaeth gan randdeiliaid am y manteision a ddaw i Gymru yn sgil datblygiadau ar hyn o bryd, ac yn ceisio gweld sut y gallai cynhyrchu newydd helpu i sicrhau cymdeithas fwy cyfartal. Roeddem am gael tystiolaeth hefyd i lywio'r ffordd y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi mwy o ddatblygiadau cynhyrchu ynni dan berchnogaeth leol, yn cynnwys drwy fodolau perchnogaeth a rennir, er mwyn cefnogi'n targedau ynni adnewyddadwy.

Ym mis Rhagfyr 2018 cyhoeddwyd yr ymateb i'r cais am dystiolaeth, yn cynnwys ein dadansoddiad o'r dystiolaeth a ddarparwyd a'r camau gweithredu y gwnaethom ddweud y byddem yn eu cymryd o ganlyniad i hynny. Mae'r datganiad polisi hwn yn egluro'n dulliau o gynyddu'r budd o gynhyrchu ynni newydd yng Nghymru.

2. Diffiniadau

Roedd y cais am dystiolaeth yn nodi'r angen am ddealltwriaeth glir o rai termau cyffredin. Rydym wedi nodi ystyr y termau fel rydym yn eu defnyddio yn Llywodraeth Cymru.

Perchnogaeth leol

Rydym yn diffinio gosodiadau 'perchnogaeth leol' fel gosodiadau ynni, sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, sy'n eiddo i un neu fwy o unigolion neu sefydliadau sydd â

perchnogaeth lwyr ac sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, neu sefydliadau y mae eu prif bencadlys wedi'i leoli yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y categorïau canlynol:

- Busnesau
- Ffermydd ac ystadau
- Cartrefi a chynhyrchu arall ar raddfa ddomestig
- Awdurdodau Lleol
- Sefydliadau sector cyhoeddus eraill
- Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig
- Sefydliadau'r trydydd sector yn cynnwys mentrau cymdeithasol ac elusennau, eu his-fentrau, canghennau masnachu a cherbydau pwrpas arbennig

Rhanberchnogaeth

Mae 'rhanberchnogaeth' yn cyfeirio at brosiect sy'n eiddo i fwy nag un endid cyfreithiol. Mae enghreifftiau'n bodoli pan fo perchnogaeth prosiect yn cael ei rannu rhwng datblygwr a grŵp cymunedol, unigolion, tiffeddianwyr, neu sefydliad sector cyhoeddus. Gall prosiectau rhanberchnogaeth gynnwys mwy nag un sefydliad masnachol. Fodd bynnag, er mwyn cael ei ystyried yn brosiect rhanberchnogaeth o dan y targed a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, byddem yn disgwyl i un neu fwy o'r cyrff sy'n berchen ar y prosiect berthyn i un o'r categorïau sydd wedi'u cynnwys yn y diffiniad o 'berchnogaeth leol'.

Perchnogaeth gymunedol

Rydym yn diffinio 'perchnogaeth gymunedol' o brosiect ynni adnewyddadwy fel datblygiad ynni adnewyddadwy neu storio adnewyddadwy sydd wedi'i leoli yng Nghymru, sy'n eiddo llawn i fenter gymdeithasol sydd wedi ymrwymo ei hasedau a'i helw i gyflawni amcanion cymdeithasol a/neu amgylcheddol.

3. Targedau

Ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r cais am dystiolaeth, diwygiwyd y targedau ar gyfer cynhyrchu ynni yng Nghymru i fod fel a ganlyn:

- Cymru i gynhyrchu trydan sy'n gyfwerth â 70 y cant o'i defnydd o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030
- 1 gigawat (GW) o gapasiti trydan a gwres adnewyddadwy yng Nghymru i fod dan berchnogaeth leol erbyn 2030
- Prosiectau ynni adnewyddadwy newydd i gael elfen o berchnogaeth leol o leiaf o 2020 ymlaen

Yn wreiddiol, roedd y targed perchnogaeth leol o 1GW yn berthnasol i drydan adnewyddadwy'n unig. Fodd bynnag, yn y cais am dystiolaeth cynigiwyd ehangu hyn i gynnwys gwres. Roedd yr ymatebwyr i'r cais am dystiolaeth yn cytuno'n fras â'r

cynnig hwn, er bod yna rai pryderon y byddai hyn yn lleihau maint yr her. Felly, ein targed erbyn hyn yw cael 1 gigawat (GW) o gapasiti trydan a gwres adnewyddadwy o dan berchnogaeth leol yng Nghymru erbyn 2030. Mae'r targed hwn yn berthnasol i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru (yn cynnwys yn nyfroedd Cymru).

Rydym wedi ehangu'r disgwyliad hefyd i bob prosiect ynni adnewyddadwy newydd fod ag elfen o berchnogaeth leol o leiaf o 2020 ymlaen yn cynnwys technolegau cynhyrchu ar y môr ac ynni anadnewyddadwy. Roedd yr ymatebion i'r cais am dystiolaeth yn awgrymu y gallai technolegau adnewyddadwy ar y tir fod o dan anfantais o gymharu â thechnolegau cynhyrchu ar y môr a thechnolegau ynni eraill heb y newid hwn.

4. Diben y polisi

Bwriad y polisi hwn yw cadw budd cymdeithasol ac economaidd o ddatblygiadau ynni'r dyfodol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae gwaith ymchwil a wnaed gan y Centre for Low Carbon Futures, ar draws amrywiaeth o ranbarthau dinesig byd-eang, yn dangos bod llawer iawn o werth economaidd yn cael ei allforio dim ond wrth dalu biliau ynni. O astudiaethau cyfwerth a wnaed yn y DU, rydym yn amcangyfrif y gallai Cymru fod yn allforio rhwng 6%¹ a 10%² o werth ychwanegol gros. Mae cynhyrchu dan berchnogaeth leol yn gyfle cryf i gadw arian yn yr economi leol, gan gyfrannu at ffyniant.


Rydym yn disgwyl i bob prosiect ynni newydd yng Nghymru gynnwys elfen o berchnogaeth leol o leiaf, er mwyn cadw cyfoeth yng Nghymru a darparu budd gwirioneddol i gymunedau ledled Cymru.

Mae'r ddealltwriaeth rydym wedi'i datblygu o'r prosiectau rydym wedi rhoi cymorth uniongyrchol iddynt yn y sectorau cyhoeddus a chymunedol yn ein harwain ni i ystyried perchnogaeth, a chymryd rhan yng nghamau cynnar datblygu, lle mae'r risgiau mwyaf, sy'n creu'r gyfran fwyaf o fudd (Ffig. 1). Felly, er mwyn sicrhau'r budd gorau i Gymru o ddatblygiad ynni, dylai fod â pherchnogaeth lwyr yng Nghymru (Ffig. 2) Fodd bynnag, byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r corff yng Nghymru ysgwyddo holl risgiau datblygiad, ac rydym yn deall na fyddai hynny'n briodol o reidrwydd. Dyma pam rydym wedi datblygu "hierarchaeth" o fodlau o ran y gwerth maent yn ei roi i Gymru. Prosiectau perchnogaeth leol 100% sydd ar frig yr hierarchaeth, cyn belled bod gan y sefydliad y gallu a'r capasiti i reoli'r risgiau.


¹ <http://bristol.ac.uk/cabot/media/documents/bristol-low-carbon-cities-report.pdf>

² https://www.sustainabilitywestmidlands.org.uk/wp-content/uploads/Mini_Stern_review_for_Birmingham.pdf

Ffigur 1: Cymryd rhan yng nghamau cynnar datblygu, lle mae'r risgiau mwyaf, sy'n creu'r gyfran fwyaf o fudd (mae bocsys gwyrdd yn dangos camau risg isel prosiect, bocsys melyn yn dangos risg canolig a bocsys oren yn dangos risg uwch)



Ffigur 2: Mae prosiectau ynni perchnogaeth lwyr yng Nghymru yn cynyddu'r risg a'r elw posibl i Gymru i'r eithaf



Byddai'r modelau canlynol yn cyflawni'r disgwyliad i bob prosiect ynni newydd gael elfen o berchnogaeth leol erbyn 2020, gan sicrhau cyfran lai o elw yn olynol i Gymru:

Perchnogaeth leol 100%	Sefydliadau neu unigolion yng Nghymru'n nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiad newydd a bwrw ymlaen â'r datblygiad fel datblygwr e.e. perchnogaeth gydweithredol leol, perchnogaeth awdurdod lleol, busnes yng Nghymru, perchnogaeth gymunedol drwy Gymdeithas Budd Cymunedol ac ati.
Perchnogaeth leol rannol	Mae sefydliadau neu unigolion yng Nghymru'n gydberchnogion gyda sefydliad arall i fwrw ymlaen â'r datblygiad newydd, er enghraifft fel menter ar y cyd neu refeniw a rennir.
Buddsoddiad lleol	Datblygwyr y tu allan i Gymru yn cynnig cyfle credadwy a hygyrch i bobl neu sefydliadau lleol brynu cyfranddaliadau neu wneud buddsoddiad gan ddarparu elfen o berchnogaeth mewn ffordd arall.

Rydym yn derbyn y bydd hyn yn her. Nid oes gan Gymru ddatblygwr gwladol na datblygwr nid-er-elw o unrhyw faint – er bod ein cefnogaeth ar gyfer ynni cymunedol dros y deng mlynedd diwethaf wedi arwain at fentrau cymdeithasol yn gwneud cyfraniad cynyddol bwysig yn y sector ynni sy'n datblygu.

Mae'r targed i gynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddiwn yng Nghymru o ynni adnewyddadwy erbyn 2030 yn cael ei yrru gan anghenion yr hinsawdd. Rydym yn cydnabod y tensiwn rhwng yr angen i ddarparu capasiti cynhyrchu ynni sylweddol newydd, wedi'i gynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol, mor gyflym â phosibl, a'r uchelgais i gael llawer mwy o berchnogaeth ar asedau ynni yng Nghymru.

Nid yw'n fwriad i'r polisi hwn lesteirio datblygiad yng Nghymru gan ddatblygwyr profiadol, sydd â'r sgiliau, y capasiti a'r awydd i gynhyrchu trydan sy'n diwallu anghenion ac wedi'i gynllunio a'i ddarparu mewn cytgord â'r bobl a'r llefydd sy'n ei gynnal. Fodd bynnag, mae'n egluro'n disgwyliad i ddatblygwyr wneud pob ymdrech i ddarparu'r elfen ddisgwyliedig o berchnogaeth leol.

Nododd y cais am dystiolaeth brosiectau ynni a all ddarparu manteision ariannol ac anariannol yn y ffyrdd canlynol:

- Perchnogaeth
- Taliadau i dirfeddianwyr
- Swyddi cadwyn cyflenwi/elw yn ystod adeiladu a Gweithredu a Chynnal a Chadw
- Taliadau ardrethi annomestig
- Seilwaith etifeddol fel ffyrdd, grid a band eang
- Elw buddsoddwyr
- Cronfeydd Budd Cymunedol
- Manteision anariannol

Yn y gorffennol, mae perchnogion datblygiadau ynni adnewyddadwy wedi derbyn llawer o fudd ariannol gan Gontractau Gwahaniaeth, Rhwymedigaeth Adnewyddadwy neu Dariff Cyflenwi Trydan. Mae newid sylweddol wedi bod yn y mecanweithiau cymorth ac nid yw'r un lefel o incwm sicr ar gael i brosiectau newydd. Mae'n anodd felly i brosiectau nad ydynt yn derbyn y lefel hanesyddol o gymorth i gynhyrchu gwargedau ariannol er mwyn talu lefelau uwch o rent tir neu gronfa budd cymunedol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r gostyngiad parhaus yng nghost technolegau adnewyddadwy wella hyfywedd ariannol prosiectau a darparu cyfleoedd i brosiectau ddod i'r fei.

Mae'n debyg y bydd Cymru'n parhau i fod yn gartref i ddatblygiadau ynni ar raddfa fawr, er mae disgwyl i ddatblygiadau o'r fath yng Nghymru ganolbwyntio ar ddarparu ar gyfer anghenion ynni Cymru, yn enwedig wrth i wres a thrafnidiaeth gael eu trydaneiddio. Er mwyn i Gymru gadw'r manteision, mae angen cyflwyno mwy o'r datblygiadau hyn mewn ymateb i angen lleol, i gefnogi cynlluniau economaidd a chymdeithasol lleol, a sicrhau manteision y gadwyn gyflenwi i gwmnïau yng Nghymru. Bydd angen i ddatblygwyr fod yn dryloyw i ddatblygu hyder y bydd y manteision a gynigir gan brosiect yn cynrychioli cyfran deg a phriodol o'r gwerth cyffredinol.

Bydd Llywodraeth Cymru a'i gwasanaethau'n parhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu prosiectau dan berchnogaeth leol. Byddwn yn darparu cymorth hefyd i helpu datblygwyr, cyrff y sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol i ddod i gytundeb ar y dull gorau o sicrhau budd i gymunedau o brosiectau, boed trwy ranberchnogaeth neu ddulliau eraill. Pan fo cymunedau'n dewis cymryd elfen o berchnogaeth mewn prosiect, bydd y gwasanaeth yn eu cefnogi yn eu rôl i ddatblygu hyn.

Yng Nghymru rydym yn gobeithio gweld amrywiaeth eang o fanteision anariannol yn deillio o ddatblygiadau megis: gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, mwy o gydlyniant cymdeithasol, grymuso, cydnerthedd, llesiant cymdeithasol, datblygu sgiliau trosglwyddadwy, a hyrwyddo ymwybyddiaeth ehangach o faterion ynni a newid yn yr hinsawdd. Yn ogystal, gall prosiectau adnewyddadwy cymunedol feithrin hyder ac annog cymunedau i gefnogi prosiectau eraill, fel siopau a thafarnau cymunedol a datblygu brwdfrydedd ac ymdeimlad o bwrpas yn y gymuned leol. Gall datblygwyr elwa ar ymgysylltiad cymunedol gwell ar gyfer prosiect ynni adnewyddadwy.

5. Y lefel o berchnogaeth a ystyrir yn rhesymol i gyflawni'r disgwyliad perchnogaeth leol

Gall unrhyw fodel y gellir dangos yn bendant ei fod o fewn ysbryd a nod y targed gael ei ystyried fel un sy'n cyflawni'r disgwyliad perchnogaeth leol. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod yna amrywiaeth o opsiynau yn cyflawni'r disgwyliad i gynnwys elfen o berchnogaeth leol.

Er bod modd cael perchnogaeth leol 100% ac mai dyma'r ffordd o gadw'r budd mwyaf posibl yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru'n credu y gallai hyn fod yn rhwystr i ddatblygiad, gan arwain at ganlyniadau anfwriadol i dargedau datgarboneiddio a'r defnydd o ynni adnewyddadwy. Yn eu hadroddiad diweddar, 'Re-energising Wales - How to protect, promote and achieve scale in community and local ownership of renewable energy in Wales', argymhellodd y Sefydliad Materion Cymreig y dylai Llywodraeth Cymru bennu gofyniad ar gyfer pob prosiect ynni adnewyddadwy newydd yng Nghymru uwchben 5 MW y dylai fod ganddynt rhwng 5% a 33% o berchnogaeth gymunedol a lleol erbyn 2020. Mae'n ddefnyddiol cael cyngor annibynnol ar ba lefel o fudd a fyddai'n cael ei ystyried yn ystyrion. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n pryderu y gallai gosod lefel uchaf llesteirio uchelgais.

Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau'r budd gorau posibl i bobl Cymru wrth ddatblygu prosiectau ynni yng Nghymru, gyda chyfleoedd i flaenoriaethu perchnogaeth leol, ond gan roi sylw i ymarferoldeb a darparu prosiectau yr un pryd. Gall maint a graddfa prosiect fod yn un ystyriaeth ymarferol o'r fath. Er enghraifft, gall prosiect ddarparu mantais sylweddol i bobl Cymru drwy gronfa budd cymunedol ond gallai perchnogaeth neu fuddsoddiad gan bobl leol gael ei weld fel cymhlethdod ychwanegol a allai danseilio'r posibilrwydd y byddai'r datblygiad yn gweld golau dydd. Fodd bynnag, mae'r egwyddor yn dal i fod yn berthnasol: mewn achosion o'r fath gallai corff cyhoeddus mawr fod yn bartner mwy priodol. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried sut y gallai gefnogi cyrff a datblygwyr y sector cyhoeddus i archwilio cyfleoedd posibl.

Rydym wedi sefydlu'r Gweithgor Perchnogaeth Leol, sy'n cynnwys y trydydd sector, y sector cyhoeddus, grwpiau cymunedol, cynghorwyr cyfreithiol a datblygwyr ynni, sy'n datblygu canllawiau manylach ar atebion a modelau.

6. Cynllunio

Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer defnyddio trydan a gwres a gynhyrchir yn lleol i helpu i gyrraedd y targed cenedlaethol o un Gigawat erbyn 2030. Dywed fersiwn ddiweddaraf Polisi Cynllunio Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, y dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio eu sail tystiolaeth i lywio polisiâu a chynigion ynni lleol. Dylai cynlluniau datblygu gefnogi cyfleoedd a nodwyd ar gyfer system gwresogi ardal, cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol a charbon isel, a chyd-leoli cynigion newydd a dyraniadau tir gyda datblygiadau, cyflenwyr gwres a defnyddwyr gwres cyfredol.

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel a ddatblygir gan gymunedau, neu sydd o fudd i'r gymuned lle y'u lleolir neu Gymru gyfan. Dylid ystyried a phwyso a mesur manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiad yn y broses benderfynu. Fodd

bynag, mae'n rhaid seilio penderfyniadau cynllunio ar asesiad o effeithiau'r datblygiad arfaethedig, waeth pwy fo'r ymgeisydd.